Teitl y syniad	Y syniad mewn 7 gair	Disgrifiad mwy manwl	Prif fanteision	Heriau	Manteision eraill	Camau Nesaf
Platfform cyfryngau cymdeithasol	Platfform ar lein i rannu anghenion a lleihau'r angen i deithio.	Gellid gosod côd QR o amgylch yr ardal i hyrwyddo ap ar lein lle gallai pobl fynd i bostio am eu hanghenion – er enghraifft, i bigo tegell i fyny o'r Argos ym Mangor – gallai unrhyw un oedd yn mynd heibio gynnig ei nôl ar y ffordd, gan leihau'r angen am deithiau car. Gallai hyn weithio o safbwynt lifft, a chyfnewid eitemau, fel bwyd, gan obeithio bod yn wahanol i'r swapshops ar Facebook. Byddai'n rhaid sicrhau diogelwch ar y safle, felly falle byddai gofyn cofrestru efo ffurf o ddogfen adnabod, a chyfeiriad y gellid ei wirio.	Lleihau traffig yn yr ardal, lleihau allyriadau carbon, dod a'r gymuned yn nes at ei gilydd. Arbed arian i bobl trwy leihau teithiau.	Ymddiriaeth, a phobol yn cymryd mantais, ond o ddefnyddio ID i wirio defnyddiwr, yna dylai fod modd olrhain popeth. Pwy fyddai'n datblygu'r ap?		
Cwt Bragu	Piclo cynnyrch Dyffryn Nantlle	Menter gymdeithasol newydd fyddai'n creu gofod i gadw a phiclo cynnyrch amrywiol o	Creu busnes newydd yn y Dyffryn, rhoi gwaith i bobl leol, cysylltu pobl i'w bwyd	Syniad go rhyfedd ydy o, mae eisiau warws eitha mawr i'w wneud, mae pobl efo	Masiwr bydd pickles yn ffad eto cyn bo hir a byddwch chi	Gweld os oes gan bobl diddordeb, os oes hen selar neu festri capel lle fedrith pobl arbrofi efo'i

		Ddyffryn Nantlle a Gwynedd a'i werthu. Byddai'r gofod yn lle i ddysgu am microfioleg ac effaith y tirwedd ar fwyd, ac yn ddelfrydol byddai'n cynnig gofod i bobl biclo a bragu pethau eu hunain a'u dod nôl i'w nôl nhw.	a'i iechyd yn well, dysgu gwyddoniaeth, creu cynnyrch lle mai dim ond amser ac llond dwrn o gynhwysion ychwanegol sy angen	gradd yn Microfioleg yn brin (ond tydy o ddim yn angenrheidiol), mae'n cymryd amser i weld cynnyrch gorffenedig	eisiau neidio ar y trên cyn iddo adael yr orsaf! :-)	gilydd, gweld os oes na gyrsiau fedrith pobl ei gwneud i ddysgu mwy
Gwella effeithlonrwydd stoc dai y Dyffryn	Sicrhau fod stoc dai yr ardal mor effeithlon a phosib o ran defnydd adnoddau	Cynllun lle mae sylw yn cael ei roi i ansawdd tai o ran arbed ynni, dŵr a chael eu hinsiwleiddio yn effeithiol. Delfryd fydd *air-source heat pump* i bob cartref, trwy gwmniau lleol - a benthyciadau ar gael i bobl allu gwneud y gwaith os nad yn gymwys i gael y gwaith am ddim.	-Budd i drigolion o ran biliau ynni -Lleihau allyriadau carbon trwy ddefnyddio llai o ynni -Gwella iechyd a llesiant trwy wella cartrefi ac amgylchiadau byw -Creu swyddi o werth uchel	-Costau sylweddol o ran *retro-fitting* stoc hen dai -Perswadio pobl y bydd y gwaith a wneir ar eu cartref o ansawdd derbyniol, gellir ymddiried ynddo -Perswadio pobl i wneud newid i'w tai -Hyfforddiant a sgiliau lleol angen eu sefydlu a'u datblygu - Model ariannu perchnogaeth cywir -Osgoi *rebound/ unintended consequences* - bod pobl yn deall y gwelliannau.	-	-
Cartrefi lleol, cynaliadwy, efo gerddi	Tai o ansawdd, wedi ei hadeiladu yn dda	Tai fforddiadwy, wedi ei hinsiwleiddio. Paneli solar ar y to i gyflenwi anghenion egni. Rhannu	Hunan-gynhalion o safbwynt egni a bwyd.	Caniatáu cynllunio, mewnbwn y gymuned, costau uchel.	Gofod gwyrdd i ganiatáu cynhyrchu bwyd yn hunan-	Tir - Cynllunio - arian – buddsoddi – adeiladwyr – prynwyr/cymdeithasau tai

		cyfleusterau cymunedol er engraifft golch, garddio, system drafnidiaeth. Wedi eu hadeiladu efo deunydd cynaliadwy.			gynhaliol, a lleihau costau byw yn sgil cost isel egni a bwyd.	
DN Sero-Garbon	Lleihau y gofyn am bŵer, a chynhyrchu, a rhannu'r elw.	- *Retrofit* i inswleiddio pob tŷ ac adeilad - Cael gwared o bob ffilament/halogen bwlb a golau strip, a rhoi LED yn eu lle - Paneli solar ar bob tŷ, a phob adeilad ar y stad ddiwydiannol - Melinau gwynt - Cynllun rhannu siwrneiau car sydd ddim yn dibynnu ar ffôn clyfar - Trawsffurfio gwasanaethau bws - *Charge points* cymunedol rhesymol - Gwella isadeiledd trafnidiaeth - beicio a cherdded - Newid rheolau cynllunio i orfodi bod datblygiadau newydd yn gwneud yr uchod - System ailgylchu/ trwsio lleol - Cynllun lleihau gwastraff - Cynllun *real*	- Ynni teg i bawb - Stopio gollyngiadau CO2 lleol.	- Perswadio pobl: codi ymwybyddiaeth am y broblem -> atebion -> manteision - Tai 'anodd' - tai bach! - Costau - Diffyg sgiliau - Diffyg ymwybyddiaeth o'r atebion - 'Difetha' golygfeydd - Newid *intrastructure* vs diogelu natur. A mwy...	-Rhoi stop ar ollyngiadau CO2 lleol - Llai o angen am ynni - Ynni rhad - Pawb yn elwa - Gwell trafnidiaeth ar gyfer pobl sydd ddim yn berchen car, neu ddim yn medru gyrru. - Gwaith lleol -Ac ati...	1. *Feasibility study* i ddewis prosiectau cyntaf 2. Cysylltu â'r gymuned, codi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth 3. Help! ??

		offsetting - Os ydy pobl yn hedfan mae'n nhw'n cyfrannu at gronfa.				
Generadur Hydro RPM Isel	Cyfunno technoleg yr 19eg ganrif efo technoleg yr 20fed ganrif	Datblygu defnyddio olwynion dŵr sy'n troi yn araf gyda *head* cymharol isel i gynhyrchu trydan.	-Pwysau dŵr sy'n bwysig, dim ei gyflymder - Maes llai amlwg na ynni hydro	-Ffiseg - angen digon o egni ar gyfer y gers i fynd o 5-8 RPM i tua 2000 RPM -Canfod asedau defnyddiadwy a mynediad iddynt - Sicrhau budd cymunedol diriaethol - Newid defnydd tir ac isadeiledd - Deddfwriaeth Cadwraeth	-Ynni cymunedol lleol -Adfer/atgyfodi isadeiledd a thechnoleg hanesyddol i ddibenion modern - Isadeiledd sydd a [---][1] yn yr awyr agored - gofynion *head* is yn goygu mwy o safleoedd posib o'i gymharu a [---] -Prosiectau tebyg yn bodoli (National trust yn y cymoedd yn rhywle)	- Astudiaeth dichonoldeb technegol ar y cyd efo adran beirianneg gyfeillgar - Dod o hyd i safle(oedd) lle mae'n bosib - Sicrhau a chytundebu tir ac unrhyw [---] a hawliau dŵr a mynediad. - [ddim wedi medru darllen y camau nesaf]
Bwydo DN yn rhad ac am ddim	-	- Rhandiroedd i bawb - Bwyd am ddim o natur - Addysg bwyd	Llesiant, cymuned iachach	- Argaeledd tir - Pa mor gynaliadwy - Oes yna ddigon o arbenigedd yn yr ardal i addysgu pobl.		- Ceisio datblygu llwybr bwyd yn y Dyffryn - Cael tir ar gael i blannu arno - Cysylltu efo ysgolion er mwyn addysgu

[1] Lle nad oedd yr ysgrifen yn glir, marciwd efo [--]

Brand Cymunedol, Gwyrdd	(Bro Lleu) GwyrddNi Dyffryn Nantlle	Creu brand ymbarél ar gyfer holl fentrau cynaliadwyedd ac amgylcheddol yr ardal e.e. arwyddion amlwg ar yr holl drafnidiaeth cyhoeddus a mentrau eraill.	- Cynyddu gweladwyedd - Gwariant isel i ddechrau - Tyfu rhwydwaith gan gysylltu mentrau ynghyd.	Cael rhanddeiliaid i brynu mewn Canfod delweddau derbynion Perthnasedd? Manteision clir?		Cytuno ar enw Canfod delwedd Cael rhanddeiliaid i brynu mewn Lansiad Cyfryngau cymdeithasol.
Ynni Adnewyddol	Cynhyrchu ynni adnewyddol yn lleol i'r gymuned.	Cynhyrchu trydan trwy ddulliau adnewyddol ee hydro, gwynt a solar, gyda'r elw yn mynd yn ôl i'r trigolion.	-Elw yn aros o fewn y gymuned -Defnyddio adnoddau naturiol sydd yma'n barod - Lleihau biliau ynni trigolion - Lleihau dibyniaeth ar danwydd ffosil.	- Cael safleoedd - Cost/cyllideb sefydlu - Caniatad o ran cysylltu i'r grid. - Sefydlu model gweithredu - Gwrthwynebiad posib e.e. melinau gwynt - Amrywiaeth yn nibynadwyedd haul, gwynt ayyb - Cael pobl i gymryd rhan o ran cychwyn unrhyw fenter.	- Creu swyddi - Pobl yn gallu gweld fod newid wedi digwydd - Codi hyder cymunedau yn eu gallu i weithredu newid/ cyflawni.	- Gwneud gwaith ymchwil, siarad â mentrau eraill i rannu profiad a gwybodaeth. - Penderfynu pwy sy'n arwain e.e. sefydlu menter gymunedol ac adnabod grwp rheoli. - Gwaith sgopio yn lleol - Ymchwil i ffynonellau cyllido- grantiau ayb.
Prosiect egni cymunedol	Cynhyrchu egni cynaliadwy ar gyfer defnydd lleol	Cynllun i asesu anghenion egni, beth sydd ar gael yn barod, a sut i wneud y defnydd gorau o adnoddau lleol, gan hefyd gyfuno hynny efo lleihad mewn defnydd..	Lleihau cost a defnydd egni, gan arwain at lai o ddefnydd o danwyddau ffosil.	Casglu data Ariannu – codi arian Gwrthwynebiad cymunedol. Niwed amgylcheddol	Llai o straen, a gwellhad mewn llesiant. Cynnwys pobl leol, rheolaeth leol. Ailddosbarthu elw i brosiectau eraill.	Casglu data ac ymchwilio i anghenion. Codi cyfalaf Hyfforddiant, a chynnwys pobl leol. Prynu neu osod safle ac offer. Delio efo biwrocratiaeth! Gwireddu'r cynllun Mesur ac ail-fuddsoddi.